## Methodolegau ar gyfer rhagamcanu cymwysterau llinol ac unedig sy'n seiliedig ar farciau

Mae CBAC yn darparu cymwysterau llinol (rhaid i bob asesiad gael ei wneud yn yr un gyfres) a chymwysterau unedig (gall pob asesiad gael ei wneud mewn un neu fwy o gyfresi).

Pan nad yw marc cydran/uned yr ymgeisydd ar gael neu ni ellir ei ddefnyddio, bydd CBAC yn ystyried rhagamcanu marc ar gyfer yr asesiad dan sylw. Mae'r amgylchiadau i gymhwyso methodoleg ar gyfer rhagamcanu marc yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Ymgeisydd yn absennol o asesiad am reswm derbyniol (ystyriaeth arbennig)
- Marc yr ymgeisydd ar goll oherwydd bod y sgript ar goll
- Ymgeisydd wedi bod dan anfantais annheg
- Rheolau'r arholiad wedi'u torri heb fai ar yr ymgeisydd

### Cymwysterau Llinol

Dan yr amgylchiadau uchod, mae CBAC yn defnyddio dull canraddau pwysol (sgôr-p) ar gyfer rhagamcanu marc cymhwyster yr ymgeisydd mewn cymwysterau llinol. Mae defnyddio'r dull hwn yn cyfrifo cyfanswm marc cymhwyster yr ymgeisydd yn seiliedig ar y canraddau pwysol cyfartalog agosaf. Mae'r pwysoliad ar gyfer y cyfartaledd yn cyfrif am y marc uchaf sydd ar gael ar bob asesiad ac unrhyw ffactorau agregu.

### Enghraifft o ddull canraddau pwysol

Os oedd cymhwyster llinol yn cynnwys 3 chydran, pob un allan o 100 marc, a phob un wedi'i bwysoli'n gyfartal ac roedd ymgeisydd wedi methu'r 3ydd cydran, am reswm da, yna bydd CBAC yn gyntaf yn cyfrifo canraddau pwysol yr ymgeisydd ar gyfer y cydrannau yr oeddent wedi'u sefyll.

| Cydran 1 | |
|---|---|
| Marc | Canran yn ennill y marc neu well |
| ... | ... |
| 70 | 22.2% |
| 69 | 23.1% |
| 68 | 25.5% |
| 67 | 27.8% |
| 66 | 28.1% |
| 65 | 29.4% |
| ... | ... |

| Cydran 2 | |
|---|---|
| Marc | Canran yn ennill y marc neu well |
| ... | ... |
| 58 | 38.3% |
| 57 | 39.5% |
| 56 | 40.2% |
| 55 | 41.6% |
| 54 | 42.6% |
| 53 | 43.9% |
| ... | ... |

Pe bai ein hymgeisydd yn derbyn marc o 68 ar Gydran 1 a 55 ar Gydran 2, yna cyfartaledd pwysol ei ganrannau fyddai (25.5 + 41.6) / 2 = 33.55. Gan gymhwyso'r gwerth canraddau pwysol hwn i'r dosraniad marciau cymhwyster a ddangosir isod, byddai ei ragamcaniad felly'n farc cymhwyster o 183, gan mai hwn yw'r marc uwch ben y canraddau pwysol. Mae marc bob amser yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r marc llawn uwch yn hytrach na'i dalgrynnu i lawr.

| Cymhwyster | |
|---|---|
| Marc | Canran yn ennill y marc neu well |
| … | … |
| 185 | 31.8% |
| 184 | 32.2% |
| 183 | 33.4% |
| 182 | 33.9% |
| 181 | 34.5% |
| 180 | 35.7% |
| … | … |

Byddai'r radd cymhwyster yn seiliedig ar y marc cymhwyster o 183.

**Cymwysterau Unedol**

Pan mae ymgeisydd yn gofyn am farc wedi'i rhagamcanu ar gyfer uned mewn cymhwyster unedol, mae CBAC yn defnyddio'r dull sgôr-z. Mae'r dull hwn yn cael ei esbonio yn nogfen y CGC Amcangyfrif marc ar gyfer uned neu gydran gan ddefnyddio'r dull sgôr-z.